



Cylchlythyr 3 Gorffennaf 2004

e-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Digwyddiadau'r Haf

Noson Pry'r Ganwyll – Dydd Mercher Gorffennaf 28. Roeddym yn ffodus iawn gyda'r tywydd ac roedd hi'n noson berffaith am y prafed, ond yn anffodus y gwybed hefyd! Erbyn hanner nôs roeddym wedi adnabod 92 rhywogaeth o'r prafed ac fydd y rhif dwaethaf yn debyg o fod o gwmpas 100. O'r rhain roedd amryw o rhai lleol ac un nodweddiadol cenedlaethol. Fe rown y rhestr llawn ar y we yn y man. Diolch mawr i John Harold am drefnu y noson a'r gobaith yw y bydd mwy i ddod.

Ymweliad â Chapel Rhiw – dyddiad i'w drefnu. Bydd hyn yn cynnwys ymweliad â gweithdy a pharc cerfluniau coedwigol ym Mlaenau Ffestiniog drwy wahoddiad David Nash. Rhwch wybod i Jenny Wong neu Mike Yates os ydych am ddod ac mi rown wybod i chwi unwaith i ni gael dyddiad gan David. Os oes digon o ddi-ddordeb mi fedrwn hyrio bws mini er mwyn gostwng y pris.

Grwpiau gwaith

Rydym angen gwirfoddolwyr i helpu gydag amryw o dasgau cynnal ymarferol yn y coed. Bydd pob tasg dan yswiriant gwirfoddolwyr BTCV gydag asesiad risg lawn. Yn anffodus, golyga hyn fod rhaid i bob gwirfoddolwr fod dros ddeunaw. Os gwelwch yn dda, dowch a chelfi llaw fel llifiau bwa, sisyrnau tocio a menig cryfion gyda chi a gwisgwch hen ddillad. Bydd lluniaeth ar gael. Mae dau ddiwrnod Grwpiau Gwaith wedi eu trefnu:

Sadwrn 31 Gorffennaf: Rheolaeth llystyfiant ar Argau Coed y Parc

Diolch i'r 14 a ddoth l weithio ar yr argae. Roedd y tywydd yn fwyn ac fe lwyddom i dachuso a tynnu llystyfiant niweddiol o'r strwythr.



Sadwrn 21 Awst: Rheolaeth Planhigion estron

Pwrpas y dydd fydd tynnu planhigion estron o'r coed yn unol â'r Cynllyn Rheoli. Byddwn yn torri'r Rhoswydden, Ffawyddden (20cm ddiamedr neu lai) ac hefyd yn chwynnu'r garnedd felen.

Rhybudd cynnar o Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Ffurfiwyd Coetir Mynydd fel cwmni fis Hydref 2003, ac o'r herwydd mae'n rhaid i ni gynnal ein CCB cyntaf yn yr Hydref. Mi fyddwn yn ethol Bwrdd yn ystod y GCB, adolygu gweithgareddau, cyfrifon a noddiant y flwyddyn a fu ac yn rhoi cymeradwyaeth amlinellol i gynlluniau am y flwyddyn nesaf. Byddwn yn casglu tâl aelodaeth blynnyddol o £5 ar gyfer 2004-5 yn ystod y CCB

Dyddiad ar gyfer CCB: Dydd Gwener 1af o Hydref

Lleoliad: Neuadd Goffa

Cynnal yr Argau

Nawr mai Coetir Mynydd sydd berchen yr argau, mae'n anghenrheidiol ein bod yn ymgymeryd â'r atgywiriadau brys a'r monitro a gymhellwyd gan adroddiad olaf y peiriannwyr. Mae Bryn wedi llunio cynlluniau manwl ar gyfer y gwaith brys. Mae hyn yn cynnwys:

- Tynnu llystyfiant coediog oddi ar ochr isaf a thalcan yr argau (Gweithlu 31 Gorffennaf)
- Gwrtio'r hollt hydredol rhwng wyneb mewnl ac allanol yr argau
- Gosod gwydr 'tell tale' a mast llinyn blwm er mwyn penderfynu a yw'r argau'n symyd.

Rydym am gael cynnigion am y ddwy dasg olaf gan eu fod angen trospwmpio o'r argau i ddod at yr hollt yn y gorlifer.

Mae diogelwch yr argau yn fater hollbwysig ac fe awgrymwyd bod angen ffensio'r argau ar hyd top y wal ar y ffordd ac o amgylch pen yr argau ar yr ochr arall. Golyga hyn y gallem gael gwared o'r pompren hyll a'r giat ar dalcen yr argau. Mae llai o frys ar y gwaith yma ac mae angen ei drafod mewn cyfarfod gyffredinol gan y bydd yn golygu newid i ymddangosiad yr argau a chyfyngu ar fynedfa gyhoeddus.

Cynllyn Rheoli Parc yr Ocar

Mae cynllyn rheoli Parc yr Ocar wedi ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Comisiwn Coedwigaeth. Rydym yn gobeithio arwyddo contract gyda'r CC am y grantiau cysylltiedig yn fuan iawn. Os ydych am weld y cynllyn, mae crynodeb ar gael ar dudalen 'Woodland' y gwefan. Os na fedrwyh fynychu'r gwefan mae copiau ar bapur i'w cael gan Jenny neu Mike.

Grant First Hydro

Rydym wedi cael cadarnhâd y bydd First Hydro yn cyfrannu £600 tuag at ein cynlluniau ar gyfer rhan uchaf Parc Ynys. Awgrymwyd gosod giat, llwybr fechan a mainc ar dop Parc yr Ynys. Mae hefyd angen rhoi trefn ar ffens ffin gweddill yr ardal. Gobeithiwn gomysiyntu'r gwaith yn fuan.

Ysgol Bodfeurig

Yn ystod Gorffennaf bu i'r Ysgol gychwyn Prosiect Addysg Goedwigol. Bu i Coetir Mynydd gynorthwyo i barato'r cynllyn a roddwyd i'r FEI a darparu gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiect, gan gynnwys athrawon yr ysgol, Y Comisiwn Coedwigaeth a C L Jones. Bu i Sara Ashton o'r CC roi sgwrs agoriadol i'r plant ac yna bu dwy ymweliad â Pharc y Bwlch. Yn ystod yr ymweliad cyntaf cwmpwyd dwy goeden gan staff y CC, ar yr ail ymweliad defnyddiodd John Sweeney ei felin lifio symudol i wneud planciau o'r coed. Dilynwyd hyn gan ymweliad â C L Jones i weld melin lifio masnachol ar waith. Mae Kevin de Silva am helpu'r plant i wneud mainc o'r coed ar gyfer gerddi'r Ysgol fis Medi gan i'r tywydd fod rhy hegar ar gyfer gweithgareddau allanol yn ystod wythnos ola'r tymor.

Ysgol Goedwig

Fel rhan o grant yr FEI gofynwyd am arian i gynorthwyo cynllunio Ysgol Goedwig i Ysgol Bodfeurig. Mae hyn yn golygu gyrru Mrs Parry, Y Brifathrawes, ar drip ymchwilol i Ysgolion Goedwig ar draws Gymru gyfan, a thalu am hyfforddi aelod o Goetir Mynydd fel Arweinydd Ysgol Goedwig. Y bwriad yw ffurfio rhai syniadau ynglyn ag Ysgol Goedwig erbyn mis Medi, eu cyflwyno i'r Llywodraethwyr a'r rhieni fel y gallwn eu cynnwys mewn cynllyn nawdd i'r FEI fis Hydref yn ystod y rownd nesaf o geisiadau nawdd.

Gall Ysgol Goedwig gymeryd nifer ffurf a mae'n rhaid penderfynu beth fisa orau ar gyfer Ysgol Bodfeurig gyda'r athrawon a'r plant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn meddwl y gallai'r Ysgol Goedwig gynnwys dosbarth allanol ym Mharc y Bwlch. Buasai'r plant yn gallu ymweld â'r dosbarth yn gyson i ymgymeryd ac amrediad o weithgareddau fel rhan o faes llafur yr Ysgol. Ceir gwybodaeth pellach ar wefan yr FEI.

<http://www.foresteducation.org.uk/forestschools/index.asp>

Cynllun rheoli Parc y Bwlch

Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol â'r pentref gan Kim Burnham ym Mhabell y CC yn ystod penwythnos agored Mynydd, 10 – 11 Gorffennaf. Mae'n ymddangos bod nifer o bobl wedi manteisio ar y cyfle i fynegi barn ynglyn â'r hyn maent yn ei hoffi, ddim yn ei hoffi a'r newidiadau hoffent weld yn y Goedwig. Fodd bynnag, nid yw'r broses ymgynghori ar gau a gall unrhyw rai a hoffai fynegi barn gwneud hynny. Fe allech farcio eich syniadau ar y map a ddoth gyda'r cylchlythyr a'u rhoi i Jenny neu unrhyw aelod o'r Bwrdd. Mae Kim wedi cynnig rhoi cyflwyniad mwy manwl o'r Cynllun rheoli presennol ac rydym am geisio trefnu hyn ar gyfer y Cyfarfod Gyffredinol nesaf.

Tan y Bwlch

Yn ystod y Cyfarfod Gyffredinol olaf bu trafodaeth fer ynglyn â dyfodol y llain gysgodi y tu ôl i Tan y Bwlch. Mae'r goedwig yma'n perthyn i Stâd y Penrhyn ac maent wedi datgan parodrwydd i'w werthu. Buasai'n well ganddynt i'r goedwig gael ei brynu gan y gymuned yn hytrach nac unigolyn gan eu bod yn gwerthfawrogi bod llawer o bobl Tan y Bwlch yn ei ddefnyddio. Y cwestiwn mewn gwirionedd yw, a fuasai'r gymuned yn hoffi i'r goedwig fod dan berchenogaeth cymunedol neu a ydynt yn barod i adael i'r goedwig fynd i berchenogaeth breifat, o ble mae'r arian am ddod a pha ran mae Coetir Mynydd am ei chwarae yn nyfodol y Goedwig. Mae arian i brynu coedwigoedd cymunedol ar gael gan CydCoed ond gan mai arian cyhoeddus fyddai hyn, mae'n debyg y buasai CydCoed yn mynnu ar fynediad gyhoeddus i'r goedwig a buasai hyn yn golygu gosod llwybr cyhoeddus. Ar y llaw arall, buasem yn gallu codi'r arian ein hunain ac yna phenderfynnu ar fynediad.

Gwefan

Nodir bod cyferiad y gwefan wedi newid i: www.coetirmynydd.co.uk

Cysylltiadau

Jenny Wong (Ysgrifenyddes) Ynys Uchaf 602124

Mike Yates (Tudalen We) Y Ffestri 601508